# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Mehefin 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 13.50)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.1 SL(6)615 - Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025**

(Tudalennau 1 - 14)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 - Papur 1 - Adroddiad drafft

LJC(6)-17-25 - Papur 2 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 8 Mai 2025

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 SL(6)616 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025**

(Tudalennau 15 – 16)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 3 – Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.1 SL(6)613 – Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 17 – 22)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 4 – Adroddiad

LJC(6)-17-25 – Papur 5 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

**4.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalennau 23 – 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 6 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 21 Mai 2025

LJC(6)-17-25 – Papur 7 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Cyfarfod Gweinidogion yr Amgylchedd y Cyngor Prydeinig Gwyddelig, 22 Mai 2025

LJC(6)-17-25 – Papur 8 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 22 Mai 2025

LJC(6)-17-25 – Papur 9 – Llythyr gan y Prif Weinidog Cymru: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod, 22 Mai 2025

**4.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 3) 2025**

(Tudalen 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 10 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 21 Mai 2025

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 – 13.50)

**5.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2024-25**

(Tudalennau 28 – 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 19 Mai 2025

LJC(6)-17-25 – Papur 12 – Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2024-25

**5.2 Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Uwchgynhadledd yr UE a'r DU**

(Tudalennau 36 – 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 13 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 19 Mai 2025

### 5.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Busnes: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

(Tudalennau 38 - 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 - Papur 14 - Llythyr gan y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Busnes, 19 Mai 2025

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.50)

## Cyfarfod preifat

(13.50 - 14.20)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

(13.50 - 14.00) (Tudalennau 40 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 - Papur 15 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Troseddu a Phlismona

(14.00 - 14.10) (Tudalennau 48 - 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 - Papur 16 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-17-25 - Papur 17 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 9 Cytundebau rhyngwladol

(14.10 - 14.15) (Tudalennau 62 - 66)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 - Paper 18 - Draft report [Saesneg yn unig]

## 10 Blaenraglen Waith

(14.15 – 14.20)

# SL(6)615 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

## Cefndir a diben

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn darparu ar gyfer y ffordd y cynhelir etholiadau ac ymgyrchoedd etholiadol, ac ar gyfer heriau cyfreithiol i etholiad.

Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn ail-wneud, yn diweddaru ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gynnal etholiadau o'r fath sydd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"), sydd wedi ei ddiwygio sawl gwaith o'r blaen. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau hefyd yn gweithredu newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ac mae'n adlewyrchu newidiadau a wnaed yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ei fod yn ddwyieithog am y tro cyntaf ac yn dilyn egwyddorion a nodir yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sy'n ymwneud â defnyddio iaith fodern a chlir sy'n ddealladwy i'r darllenydd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 36 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 6(5)(c) yn cyfeirio at "datganiad o wasanaeth" a "datganiad o gysylltiad lleol". Nid yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn erthygl 2 o'r Gorchymyn, a phan fyddant yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill yn y Gorchymyn, fe'u defnyddir gan gyfeirio at ble y gellir dod o hyd i'w priod ystyron mewn deddfwriaeth arall. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam na ddiffiniodd y termau hyn yn erthygl 2, neu ddarparu rhagor o wybodaeth yn erthygl 6(5)(c) i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y termau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn erthygl 16(6), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Schedule 4 makes further provision..." ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth...". Mewn mannau eraill mynegwyd ystyr yr un ymadrodd yn gywir yn y testun Cymraeg mewn darpariaethau tebyg fel erthyglau 14(2) a (3), a 15(4), 43(4), 65(5) a 71(8).

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthyglau 26(3) a 119(1) yn cyfeirio at "craffu". Ni roddir unrhyw ystyr penodol i'r gair hwn yn y Gorchymyn ac felly nid yw'n glir i'r darllenydd beth yw craffu.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthyglau 26(3) a 26(4) yn cyfeirio at "unrhyw gosb am bleidleisio". Ni roddir unrhyw ystyr penodol i'r term hwn yn y Gorchymyn ac felly nid yw'n glir i'r darllenydd at beth mae unrhyw gosb am bleidleisio yn cyfeirio.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn erthygl 35(1)(d), cyfeirir at "adrannau 6A i 6D o Ddeddf 2000". Fodd bynnag, nid yw'r term "Deddf 2000" wedi ei ddiffinio yn y Gorchymyn. Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad fod at "Deddf Pleidiau Gwleidyddol 2000" a ddiffinnir yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn, os yw'r ddarpariaeth yn cyfeirio at adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 47(9) yn croesgyfeirio at reol 70(1) o Atodlen 5 gyda'r cyfeiriad at "(dinistrio dogfennau)". Pennawd Rheol 70 yw "Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru perthnasol" ac mae rheol 70(1) yn ymdrin â chadw dogfennau yn unig, felly mae cyfeirio at "ddinistrio dogfennau" yng nghyd-destun rheol 70(1) yn anghywir, a gall fod yn ddryslyd i'r darllenydd.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 54(1) yn ei gwneud yn ofynnol i asiant etholiadol ddanfon "ffurflen wir" at y swyddog canlyniadau. Nid yw'r term hwn wedi ei ddiffinio yn y gorchymyn ac nid yw ffurf ffurflen wir yn glir gan nad oes ffurf wedi ei chynnwys at y diben hwn yn Atodlen 10 i'r Gorchymyn. Mae erthygl 54(8) yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn Etholiadol ragnodi ffurf ar gyfer ffurflen at y diben hwn, ond mae hynny'n bŵer yn ôl disgresiwn tra bod y gofyniad i ddanfon

ffurflen wir yn erthygl 54(1) yn orfodol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch ffurf "ffurflen wir" pe na bai'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei bŵer o dan erthygl 54(8).

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn erthygl 56(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the registered political party on whose party list the candidate was included" ond yr hyn a geir yn y testun Cymraeg yw'r "blaid wleidyddol gofrestredig y mae'r ymgeisydd wedi ei gynnwys ar ei rhestr". Yn hyn o beth, mae'n arwyddocaol oherwydd bod "rhestr plaid" yn derm a ddiffinnir gan erthygl 2(1) ar gyfer y Gorchymyn hwn. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno ystyried bod amrywiaeth drwy gydol testun Saesneg y Gorchymyn rhwng datgan "on whose party list" neu "on whose list" mewn ymadroddion tebyg, ac mae enghreifftiau'n cynnwys erthyglau 71(3) a 119(2)(b) sy'n defnyddio "on whose list" ac erthyglau 45(1) a 118(2) sy'n nodi "on whose party list".

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 67(4) yn cyfeirio at anfon cyfathrebiadau gan ymgeiswyr, ac yn nodi bod anfon cyfathrebiadau o'r fath, yn rhannol, yn ddarostyngedig i'r amod yn erthygl 67(2). Fodd bynnag, mae erthygl 67(2) yn nodi y "caniateir" i gyfathrebiad etholiadol fod yn gyfathrebiad drwy'r post sy'n cynnwys mater sy'n ymwneud â'r etholiad yn unig ac sy'n pwyso llai na 60 gram. Ymddengys bod hyn yn ddarpariaeth ddewisol yn hytrach nag amod – pe bai'n amod, byddai disgwyl y byddai'r gair "rhaid" wedi cael ei ddefnyddio yn lle "caniateir". Gan hynny, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut mae'r ddwy ddarpariaeth hyn yn rhyngweithio.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 71(4)(a) yn cyfeirio at ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Nid yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn y Gorchymyn. Mae deddfwriaeth arall yn diffinio'r termau hyn gan gyfeirio at Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler, er enghraifft, adran 51(2) o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a basiwyd yn ddiweddar). Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn y Gorchymyn.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(viii) – ei fod yn defnyddio iaith ryw-benodol**

Yn y testun Saesneg, mae erthygl 72(3) yn cyfeirio at "chairman". Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam na ddefnyddiwyd y gair "chair" neu "chairperson" yn yr achos hwn.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 73(1) yn nodi rhestr o bersonau sy'n cael eu cyfrif fel swyddogion na chânt weithredu ar ran ymgeiswyr. Mae is-baragraff (d) yn cyfeirio at "unrhyw bartner neu glerc i unrhyw berson o'r fath". Nid yw'n glir at beth mae'r gair "partner" yn cyfeirio yma, p'un a yw'n bartner busnes, partner personol, partner sifil neu rywbeth arall. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro beth yw ystyr "partner" yn y cyd-destun hwn.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 93(4) yn nodi, o ran y dystiolaeth sy'n cael ei thrawsgrifio mewn treial deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd, "Rhaid i gopi o'r dystiolaeth fynd gyda'r dystysgrif a roddir gan y llys etholiadol i hysbysu'r Senedd". Nid yw'n glir at ba dystysgrif y cyfeirir yn y cyd-destun hwn – mae Rhan 4 o'r Gorchymyn yn cyfeirio at wahanol achosion lle gall fod angen tystysgrif. Mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â'r rhwymedigaeth ar y llys etholiadol i ardystio'n ysgrifenedig ei benderfyniad ynghylch y ddeiseb i Lywydd y Senedd o dan erthygl 101(3) ond nid yw hyn yn glir, felly gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r sefyllfa.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 104(1) yn cyfeirio at ddeiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd yn cael ei thynnu'n ôl gyda chaniatâd y llys etholiadol neu "Uchel Lys drwy gais arbennig". Nid oes rhagor o wybodaeth yn y Gorchymyn ynghylch beth yw "cais arbennig". Mae'n bosibl y dylai hyn gyfeirio at achos arbennig sy'n cael ei ddwyn o dan erthygl 103 o'r Gorchymyn, ond byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt hwn.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 7(2) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn rhestru personau sy'n gallu ardystio a llofnodi cais am bleidlais drwy ddirprwy ar sail amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall. Diffinnir mwyafrif y proffesiynau a restrir yn is-baragraff (2) drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddeddfwriaethol neu gofrestr benodol. Fodd bynnag, mae is-baragraff (2)(h) yn cyfeirio at "ymarferydd Gwyddor Gristnogol" heb unrhyw ddiffiniad pellach na chyfeirio at unrhyw gofrestr o ymarferwyr o'r fath. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

- y sail dros gynnwys proffesiwn y mae'n ymddangos nad yw'n cael ei reoleiddio ar y rhestr hon, ac
- a yw cynnwys proffesiwn heb ei reoleiddio yn creu unrhyw risg mewn perthynas â'r system pleidleisio drwy ddirprwy.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Ym mharagraff 16(1)(a) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "application to remove a person from record of absent voters", tra bo’r Gymraeg yn dweud "cais i dynnu **enw** person o’r cofnod o bleidleiswyr absennol".

**17. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a’r testun Saesneg**

Ym mharagraff 18(2)(b) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud y canlynol: “mark the postal ballot box with the words “blwch pleidleisio drwy’r post” or the words “postal ballot box” or both”. Mae’r geiriau "neu'r ddau" ar goll o'r testun cyfatebol Cymraeg.

**18. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a’r testun Saesneg**

Ym mharagraff 23(9)(b) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at unrhyw bapur pleidleisio arall "with the postal voting statement attached". Yn y testun Cymraeg cyfatebol dywedir "ac sydd â’r datganiad pleidlais drwy’r post ynghlwm wrthi". Sylwer ar ffurf fenywaidd yr arddodiad "wrthi". Gan fod "papur pleidleisio" yn enw gwrywaidd, nid yw'r testun Cymraeg yn gwneud synnwyr.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Ym mharagraff 23(9)(b) o Atodlen 2, nid yw ystyr y ddarpariaeth yn glir oherwydd gwahaniaeth yn y gystrawen rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn awgrymu mai'r datganiad pleidleisio drwy'r post y mae'n rhaid ei farcio â’r geiriau "gwrthodwyd dros dro", "provisionally rejected" neu'r ddau, tra bod y testun Cymraeg yn darparu mai'r papur pleidleisio y mae'n rhaid ei farcio yn y modd hwnnw. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ystyr y ddarpariaeth.

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 23(9)(c) o Atodlen 2 yn y testun Saesneg yn darparu, mewn amgylchiadau penodol, bod yn rhaid i'r swyddog canlyniadau roi yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (y weithdrefn wirhau), unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys wedi ei farcio â "provisionally rejected". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio at unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys sydd wedi ei farcio â "gwrthodwyd dros dro". Mae darpariaethau cyfatebol mewn mannau eraill yn Atodlen 2 yn cyfeirio at ddatganiadau pleidleisio drwy'r post wedi eu marcio yn Gymraeg neu Saesneg **neu'r ddau** yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro’r anghysondeb hwn.

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Ym mharagraff 11 o Atodlen 3, mae'r testun Saesneg yn addasu testun Saesneg y cwestiwn yn Nhabl 1 yn rheol 44(4) yn unig, tra bod y testun Cymraeg yn addasu testun Cymraeg y cwestiwn hwnnw yn unig. Fodd bynnag, gan fod y Tabl yn y naill iaith a'r llall yn cynnwys y cwestiwn yn Gymraeg ac yn Saesneg, ymddengys y dylid gwneud yr addasiad yn ddwyieithog yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r un mater yn ymddangos ym mharagraff 11 o Atodlen 4.

**22. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Ym mharagraff 23(b) o Atodlen 3 mae testun Saesneg paragraff (2)(a) wedi ei addasu yn cyfeirio at "the office of councillor for a county or county borough" tra bod y testun cyfatebol Cymraeg yn cyfeirio at "swyddi cynghorwyr sy'n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir neu **gyngor** bwrdeistref sirol".

**23. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheol 13(7) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at bersonau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) i (d) o reol 13. Fodd bynnag, nid oes is-baragraffau ym mharagraff (1). Ymddengys y dylai'r cyfeiriad cywir fod at baragraff (2)(a) i (d) ond gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau hyn.

**24. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Rheol 55(1) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at y camau y mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol "ar ôl i bob pleidleisiwr fwrw ei bleidlais". Mae erthygl 2 yn diffinio "pleidleisiwr", yn rhannol, fel "person sy'n pleidleisio mewn etholiad i'r Senedd". Mae hwn yn ddiffiniad eang sy'n ymddangos fel pe bai'n golygu bod yn rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd camau o dan reol 55 ar ôl i bob person sy'n pleidleisio yn yr etholiad bleidleisio, ac nad yw wedi ei gyfyngu i'r orsaf bleidleisio benodol honno. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut mae swyddog llywyddu pob gorsaf bleidleisio i wybod, neu sut mae modd iddo gael gwybod, bod pob person sy'n pleidleisio yn yr etholiad wedi bwrw ei bleidlais.

**25. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheol 66(3)(d) a 67(2)(h) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at "gofnodion cofrestru". Mae'r term hwn wedi ei ddiffinio at ddibenion rheolau eraill, ond nid ar gyfer y ddwy reol hyn, felly nid yw'n glir wrth edrych ar y rheolau hyn beth yw ystyr y term.

**26. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 5, yn rheol 68(2)(d) a (3)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi, "an order for the inspection or production of the whole or part of its contents". Yn y testun Cymraeg, mynegir "or production" drwy ddweud "neu i'w ddangos" gydag "i'w" yn rhagenw gwrywaidd sy'n achosi treiglad meddal i'r gair "dangos" fel bod yn rhaid iddo fod yn cyfeirio at enw unigol gwrywaidd cynharach. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg mae "rhan" yn yr ymadrodd "neu ran ohono" yn enw benywaidd ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymadrodd "i'w ddangos", sy'n berthnasol i enw gwrywaidd yn unig. Gan hynny, nid yw'r testun Cymraeg yn llwyddo i gyfleu ystyr y frawddeg yn llawn gan y gall llys etholiadol wneud gorchymyn i ddangos naill ai y cyfan neu ran o gynnwys y pecynnau a seliwyd.

**27. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 5, yn rheol 75(5), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at gyfnod o amser, sef "21 days after the day on which…" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "21 o ddiwrnodau ar ôl y *dyddiad*…". Mewn mannau eraill defnyddiwyd gair mwy llythrennol, "diwrnod", wrth ddisgrifio cyfnodau o amser yn nhestun Cymraeg y Gorchymyn.

**28. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 5, yn rheol 75(11), yn y geiriau agoriadol cyn is-baragraff (a), ceir gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "under paragraph (4)(b)(i)" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "o dan (4)(b)(i)".

**29. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Atodlen 9, ym mharagraff 2(1), mae'r dehongliad o reol 2(2) o Reolau Deisebau Etholiad 1960 yn cael ei addasu drwy fewnosod diffiniadau ychwanegol. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniadau newydd i gyd wedi eu mewnosod yn Gymraeg er bod Rheolau Deisebau Etholiad 1960 yn Saesneg yn unig. Gan hynny, ymddengys y dylai'r diffiniadau newydd hyn fod wedi cael eu mewnosod yn Saesneg hefyd gan destun Cymraeg paragraff 2(1) yn Atodlen 9 i'r Gorchymyn o dan y confensiwn arferol (fel sy'n digwydd gydag addasiadau pellach i Reolau 1960 yn Atodlen 9 – gweler, er enghraifft, baragraff 3 o Atodlen 9).

Yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn, nodwn y ddau bwynt cysylltiedig a ganlyn sy'n ymwneud â pharagraff 2(1) o Atodlen 9:

- yn y diffiniad o "*y Clerc*" sydd wedi ei fewnosod fel addasiad i reol 2(2) o Reolau 1960, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, gan mai "*Clerk of the Senedd*" yw'r term sy'n cael ei ddiffinio yn y testun Saesneg.

- Defnyddir y diffiniad Saesneg yn yr addasiad a wneir gan baragraff 4(b) o Atodlen 9 ac yn y Templed Deiseb a fewnosodir yn Rheolau 1960 fel addasiad gan baragraff 7 o'r Atodlen honno. Fodd bynnag, "*Clerc y Senedd*" yn hytrach na'r term diffiniedig "y Clerc" a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Templed Deiseb a fewnosodir gan baragraff 7 o Atodlen 9.

- yn y diffiniad o "*etholiad i'r Senedd*" sydd wedi ei fewnosod fel addasiad i reol 2(2) o Reolau 1960, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg gan mai "*Senedd Cymru election*" sy'n cael ei ddiffinio yn y testun Saesneg.
  - Defnyddir y diffiniad Saesneg yn y Templed Deiseb a fewnosodir yn Rheolau 1960 fel addasiad gan baragraff 7 o Atodlen 9. Fodd bynnag, "*etholiad Senedd Cymru*" yn hytrach na'r term diffiniedig "*etholiad i'r Senedd*" a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Templed Deiseb a fewnosodir gan baragraff 7.

**30. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 9, ym mharagraff 7, ym mhennawd y Templed Deiseb newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Senedd **Cymru** Election Petition Template" ond yr hyn a geir yn y testun Cymraeg yw "Templed Deiseb Etholiad ar gyfer Etholiad i'r Senedd". Yn hyn o beth, mae'r testun Cymraeg wedi defnyddio'r diffiniad newydd ("deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd") a fewnosodir fel addasiad yn rheol 2(2) o Reolau 1960 gan baragraff 2(1) o Atodlen 9. Fodd bynnag, nid yw'r testun Saesneg wedi defnyddio'r diffiniad "Senedd election petition" a fewnosodir yn rheol 2(2) o Reolau 1960.

**31. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 10, yn Ffurf 20, ceir gwahaniaeth rhwng pennawd y Ffurfiau Saesneg a geir yn fersiynau Cymraeg a Saesneg y Gorchymyn. Yn y fersiwn Saesneg, pennawd y ffurf Saesneg yw "Form of declaration to be made by the companion of a voter **with severe sight impairment or other disability or inability to read**". Ond pennawd y Ffurf Saesneg yn y fersiwn Gymraeg o'r Gorchymyn yw "Form of declaration to be made by the companion of a voter **with disabilities**". Dyma oedd teitl y ffurf yn fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn. Mae'r teitl wedi ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn y ffurf Saesneg yn nhestun Saesneg y Gorchymyn, ond nid yn y ffurf Saesneg sydd yn y testun Cymraeg.

**32. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 10, yn Ffurf 23, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y geiriau mewn llythrennau italig ar ôl "Note", ceir "in accordance **with rule** 75 of Schedule 5". Ond yn nhestun Cymraeg y Ffurf, mae'r geiriau "â rheol" ar goll yn y cyfeiriad fel mai'r hyn a geir yw "yn unol 75 o Atodlen 5".

**33. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 11, ym mharagraff 1(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y geiriau mewn cromfachau, nodir "(amendments to the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order **2007)**". Ond yn y testun Cymraeg mae'r flwyddyn "2007" ar goll o deitl y Gorchymyn a hefyd y gromfach ar y diwedd.

**34. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn Atodlen 11, ym mharagraff 1(4)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y diffiniad newydd o "2025 Order" mae'n nodi teitl y Gorchymyn fel "the Senedd Cymru (Representation of the People) Order **2025**". Ond yn y testun Cymraeg, y flwyddyn yn nheitl y Gorchymyn yw "2005" felly mae'n dweud "Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) **2005**".

**35. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Byddem yn ddiolchgar am esboniad ar gyfer y ddau bwynt a ganlyn sy'n ymwneud â pharagraff 5 o Atodlen 11 i'r Gorchymyn:

- ym mharagraff 5(2)(b)(ii), mae'r term "an Assembly election" wedi'i ddiwygio'n destunol fel ei fod yn nodi "a Senedd election" yn rheoliad 2(3) o Reoliadau Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012. Yn ogystal, mae'r un term wedi ei ddiwygio yn rheoliad 2A o Reoliadau 2012 gan baragraff 5(3)(a) a (b) o Atodlen 11. Fodd bynnag, diffinnir y term "Assembly election" ar gyfer rheoliad 2 gan reoliad 2(5) o Reoliadau 2012. Gan hynny, a allai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw wedi diwygio'r diffiniad o "Assembly election" yn destunol yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012? Yn ogystal, a ddylai'r termau perthnasol eraill a ddiffinnir yn rheoliad 2(5) megis "Assembly", "Assembly constituency" ac "Assembly electoral region" hefyd fod wedi cael eu diwygio'n destunol i nodi "Senedd" yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012?
- ym mharagraff 5(3), gwneir diwygiadau i reoliad 2A o Reoliadau 2012. Fodd bynnag, mae gwall hanesyddol posibl yn y diwygiadau blaenorol a wnaed gan OS 2016/300 a fewnosododd reoliad 2(3) i (5) a rheoliad 2A yn Rheoliadau 2012. O ganlyniad i'r diwygiadau hynny, dim ond ar gyfer rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny yr oedd rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012 yn diffinio "Assembly", "Assembly election" ac "Assembly constituency". Gan hynny, nid yw'r termau hynny wedi eu diffinio i'w defnyddio yn rheoliad 2A o Reoliadau 2012. Yn dilyn y diwygiadau a wneir gan baragraff 5(3) o Atodlen 11 i'r Gorchymyn hwn, ymddengys y bydd y broblem yn parhau, sef na fydd y termau a geir yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012 wedi eu diffinio gydag ystyr ar gyfer rheoliad 2A o'r Rheoliadau hynny.

**36. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Atodlen 12(11) yn dweud ei bod yn dirymu "*Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau)* ***2021***". Mae'n ymddangos bod hyn yn gamgymeriad gan nad yw'n ymddangos bod offeryn dan y teitl hwn yn bodoli. Nid yw'r rhif OS ar gyfer yr offeryn hwn wedi ei ddarparu mewn troednodyn.

Nodwn fod fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn yn dweud i ddechrau ei fod yn dirymu *Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011* (OS 2010/676) o dan Atodlen 12(1). Mae'r Rheoliadau hyn yn dal i fod mewn grym, ond mae eu dirymu wedi ei hepgor o'r Gorchymyn hwn. Nid yw'r rheswm am hyn yn glir. Nid yw'n glir chwaith a yw'r cyfeiriad anghywir at Reoliadau 2021 yn Atodlen 12 yn gysylltiedig â dileu Rheoliadau 2011.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**37. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Mae erthygl 23 o'r Gorchymyn yn nodi bod gan swyddog canlyniadau hawl i adennill ei daliadau mewn perthynas â'i dreuliau sy'n ymwneud ag etholiad i'r Senedd. Gall hefyd adennill taliadau ar ran gweinyddwyr etholiadol sydd wedi eu rhestru yn erthygl 23(3). Mae erthygl 23(7) yn nodi bod unrhyw symiau y caniateir eu hadennill i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu allan ohoni. Mae erthygl 23(8) yn nodi ymhellach, pan fo'r cyfraniadau blwydd-daliad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu talu mewn perthynas ag unrhyw berson yn cael eu cynyddu gan unrhyw ffi a delir o dan erthygl 23 fel rhan o daliadau swyddog canlyniadau mewn etholiad i'r Senedd, yna rhaid codi swm sy'n hafal i'r cynnydd ar Gronfa Gyfunol Cymru a'i dalu allan ohoni i'r awdurdod.

**38. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Mae erthygl 67 o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu'r darparwr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth post am ddim ar gyfer cyfathrebiadau etholiadol, ac mae'r symiau sy'n daladwy i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

**39. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Mae erthygl 92 o'r Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid talu'r treuliau yr eir iddynt gan farnwyr mewn perthynas â deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd allan o Gronfa Gyfunol Cymru.

**40. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae gwahanol ddarpariaethau o'r Gorchymyn yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i wneud rheoliadau. Nid yw'r Gorchymyn yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gosod rheoliadau o'r fath gerbron y Senedd, nac ar gyfer unrhyw hysbysiad am reoliadau o'r fath i'r Senedd na Gweinidogion Cymru. Nodir y byddai'n rhaid rhoi copi o'r rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, ac o dan baragraff 22(4) byddai'n rhaid ei roi i'r cyhoedd hefyd, ond gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes rhaid gosod rheoliadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â Chymru gerbron y Senedd na darparu copi i'r Senedd na Gweinidogion Cymru.

**41. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 4(2) o Atodlen 6 i'r Gorchymyn yn nodi bod unrhyw rodd o lai na £500 i'w diystyru fel rhodd sy'n ddarostyngedig i'r rheolau yn Atodlen 6. Nodir bod fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn wedi gosod ffigur o £50 at y diben hwn. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio beth achosodd y cynnydd sylweddol hwn.

**42. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Roedd fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn yn cynnwys ffurf fanwl (Ffurf 29) yn Atodlen 10 ar gyfer ffurflen treuliau etholiadol ymgeiswyr unigol. Mae'r ffurf hon wedi ei hepgor o'r Gorchymyn. Roedd y ffurf a hepgorwyd yn debyg iawn i Ffurf CW yng Ngorchymyn Cynnal Etholiadau 2007. Mae'r gofyniad i gyflwyno ffurflen treuliau etholiadol yn parhau i fod yn erthygl 54. Mae'r wybodaeth ariannol sy'n ofynnol yn gynhwysfawr, yn fanwl ac yn gymharol gymhleth.

O dan y Gorchymyn hwn, mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer (ond nid dyletswydd) i ragnodi ffurf ar gyfer ffurflen y caniateir ei defnyddio at ddibenion cyflwyno'r ffurflenni angenrheidiol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr unigol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio'r rhesymeg dros ddileu Ffurf 29 a rhoi pŵer i'r Comisiwn Etholiadol ragnodi ffurf, ac a yw'r Comisiwn Etholiadol yn bwriadu rhagnodi ffurf o'r fath mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Yn absenoldeb ffurf ragnodedig, gofynnir i Lywodraeth Cymru a yw'n fodlon y gallai ymgeisydd unigol gyflwyno'r cyfan o'r wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan erthygl 54 yn hyderus.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd, ac eithrio pwyntiau adrodd ar rinweddau 37 i 39 yn gynwysedig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Mai 2025**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025** |
| **DYDDIAD** | **8 Mai 2025** |
| **GAN** | **Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai** |

Mae'n bleser gennyf hysbysu'r aelodau y gosodwyd Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) ('y Gorchymyn Cynnal Etholiadau') yn ffurfiol gerbron y Senedd heddiw. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd. Mae'n rhoi manylion ynghylch sut y caiff yr etholiad ei reoli a sut y mae ymgeiswyr unigol yn cynnal eu hymgyrch etholiadol ac yn cyfrif am eu gwariant mewn perthynas â'r ymgyrch honno. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r broses ar gyfer heriau cyfreithiol i etholiad.

Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol yn y gwaith cynhwysfawr i ail-wneud Gorchymyn wedi'i gydgrynhoi cyn Etholiadau'r Senedd yn 2026, gan ddisodli fersiwn flaenorol 2007 a ddiwygiwyd yn helaeth. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd yn fwy eglur, yn defnyddio iaith fodern, niwtral o ran rhywedd a hygyrch, ac mae'n gwbl ddwyieithog am y tro cyntaf.

Bydd strwythur y Gorchymyn yn gyfarwydd, ond fe'i diweddarwyd gyda'r bwriad o weithredu'r newidiadau deddfwriaethol sylweddol sy'n ofynnol gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 i adlewyrchu'r newidiadau i system etholiadol y Senedd. Mae hefyd yn datblygu'r cynigion polisi a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, a thrwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Heddiw, rydym hefyd wedi cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, a gynhaliwyd o 25 Tachwedd 2024 i 17 Chwefror 2025.

Roedd y Gorchymyn drafft a oedd yn destun yr ymarfer ymgynghori yn cynnwys darpariaeth i sefydlu gweithdrefn newydd ar gyfer cywiro datganiadau pleidleisio drwy'r post. Nod y weithdrefn fyddai lleihau'r lefel bresennol o bleidleisiau drwy'r post a wrthodir yn ddiangen drwy roi cyfle i bleidleiswyr drwy'r post gywiro camgymeriadau cyffredin a wnaed wrth ddarparu dynodyddion personol ar eu datganiad pleidleisio drwy'r post cyn i'r pôl gau. Fodd

bynnag, yn sgil ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad, bydd y Llywodraeth yn gohirio'r trefniadau i roi'r weithdrefn gywiro ar waith. O ganlyniad, bydd yn bosibl cynnal rhagor o ymarferion ymgysylltu â gweinyddwyr etholiadol i ddatblygu a mireinio'r weithdrefn ymhellach ac i ymchwilio i'r opsiynau i'w cyflwyno ar adeg ddiweddarach. O ganlyniad, mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r weithdrefn gywiro wedi cael eu dileu o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Mae'r ymarferion ymgysylltu a gynhaliwyd ag ystod o randdeiliaid a'r cyhoedd, a'r cyfraniadau a dderbyniwyd ganddynt, wedi bod yn hynod werthfawr ar gyfer ffurfio darpariaethau terfynol y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Pwyllgor Biliau Diwygio am yr adroddiad trylwyr ar y Gorchymyn drafft o fewn cyfyngiadau'r cyfnod ymgynghori.

Edrychaf ymlaen at y ddadl yn y Senedd ar y Gorchymyn hwn yn ddiweddarach yn ystod tymor yr haf.

# SL(6)616 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 3(1) o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 a Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022.

Mae adran 1 o Ddeddf 1987 yn sefydlu hawl cynnig cyntaf i denantiaid cymwys. Mae hyn yn golygu os yw landlord tenant cymwys yn dymuno gwaredu ei fuddiant mewn eiddo sy'n cynnwys fflat tenant cymwys, rhaid rhoi cyfle i’r tenant cymwys brynu buddiant y Landlord, cyn iddo gael ei gynnig i'w werthu i barti arall.

Mae Adran 3(1) o Ddeddf 1987 yn nodi pwy sy’n “denant cymwys”. Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 3(1) i ddarparu nad yw tenantiaid o dan gontractau meddiannaeth, a gyflwynwyd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, yn denantiaid cymwys.

Cafodd adran 3(1) ei ddiwygio’n flaenorol gan Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022. Roedd y diwygiad cynharach hwnnw’n anfwriadol yn ymestyn cyrhaeddiad yr hawl cynnig cyntaf, gan ei wneud ar gael i denantiaid contractau meddiannaeth safonol. Mae’r contract meddiannaeth safonol yn cyfateb yn fras i denantiaeth fyrddaliadol sicr (a oedd yn bodoli yng Nghymru cyn gweithredu Deddf 2016) ac nid oedd tenantiaid o’r math hwnnw o denantiaeth yn denantiaid cymwys. Mae’r rheoliadau hyn yn dirymu’r diwygiad cynharach hwnnw.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o’r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Gwneir y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio pwerau yn adran 255(1)(a) a (2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol at roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf 2016.

Mae teitl y Rheoliadau hyn yn nodi eu bod yn cynnwys diwygiadau canlyniadol. Fodd bynnag, mae paragraffau 11 i 13 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau bod y Rheoliadau hyn yn cywiro diwygiad canlyniadol cynharach yn 2022. Rydym o'r farn y byddai'r Rheoliadau'n cael eu henwi'n fwy cywir fel Rheoliadau "Diwygio" ar y sail honno. Mae'r ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn o ganlyniad i Reoliadau 2022, yn hytrach nag o ganlyniad i Ddeddf 2016.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> *"Gan fod y Rheoliadau'n darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol sydd wedi'u cyfyngu o ran eu heffaith i sicrhau bod adran 3 o Ddeddf 1987 yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed i'r gyfundrefn denantiaeth breswyl yng Nghymru gan Ddeddf 2016 ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth, wrth gwrs, mewn perthynas â datblygu Deddf 2016."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**28 Mai 2025**

# SL(6)613 – Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o sylwedd i Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") er mwyn galluogi gweithredu Deddf Caffael 2023 ("Deddf 2023").

Diben Deddf 2023 yw diwygio cyfundrefn caffael cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn dilyn ei hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd ("UE"), gan greu system symlach a mwy tryloyw nad yw'n seiliedig mwyach ar Gyfarwyddebau'r UE wedi eu trosi. Mae Rheoliadau 2024 yn ychwanegu at Ddeddf 2023.

Mae rheoliad 3 yn gwneud sawl diwygiad i Reoliadau 2024. Mae paragraff (2) yn dileu'r diffiniad o "cyfleustod" o reoliad 4 ac mae paragraff (3) yn ei fewnosod yn rheoliad 3 yn lle hynny, er mwyn galluogi'r diffiniad i fod yn gymwys i'r Rheoliadau cyfan. Mae paragraff (4) yn mewnosod rheoliadau newydd 45E a 45F yn Rheoliadau 2024 er mwyn nodi sut y mae canran y gweithgareddau a gyflawnir gan berson i'w chyfrifo, mewn perthynas â threfniadau fertigol a llorweddol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr wyth pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliadau newydd 45E(9) a 45F(9), mae'r term "dyddiad dyfarnu'r contract" wedi'i ddiffinio â'r un ystyr ar gyfer y ddau reoliad hynny. Fodd bynnag, mae'r un term eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn sawl man yn y rheoliadau presennol a geir yn Rhan 3 o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 fel y'u diwygiwyd, megis rheoliadau 45A i 45D, lle nad yw ei ystyr wedi'i ddiffinio.

A allai Llywodraeth Cymru esbonio a oes i'r term "dyddiad dyfarnu'r contract" yr un ystyr yn rheoliadau presennol 45A i 45D yn Rhan 3 o Reoliadau 2024 ag a roddir gan y diffiniadau ar gyfer rheoliadau newydd 45E a 45F?

Os bwriedir i'r term ddwyn yr un ystyr ym mhob un o'r rheoliadau hyn yn Rhan 3 o Reoliadau 2024, a ddylid mewnosod diffiniad newydd o “dyddiad dyfarnu’r contract” ym mhob un o reoliadau 45A i 45D neu mewn darpariaeth ar wahân ar gyfer Rhan 3 o Reoliadau 2024 yn ei chyfanrwydd?

Fel arall, mae cynnwys y diffiniadau newydd o “dyddiad dyfarnu’r contract” ar gyfer rheoliadau 45E a 45F yn awgrymu bod ei ystyr yn wahanol ar gyfer y rheoliadau hynny o'u cymharu â'r rheoliadau presennol eraill yn Rhan 3 o Reoliadau 2024.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliadau newydd 45E a 45F, mae sawl darpariaeth sy'n nodi dulliau o gyfrifo trosiant priodoladwy neu amhriodoladwy a chyfanswm trosiant. Mae'r darpariaethau hyn yn cyfeirio at ragamcanion busnes credadwy ar gyfer gwahanol gyfnodau a ddisgrifir fel rhai sy’n “**dechrau â** dyddiad dyfarnu’r contract”. Fodd bynnag, mae darpariaethau tebyg yn rheoliadau presennol 45A i 45D o Reoliadau 2024 yn disgrifio rhagamcanion busnes credadwy fel rhai sy’n "**dechrau o** ddyddiad dyfarnu’r contract". Mae hyn o bosibl yn awgrymu gwahaniaeth mewn ystyr o ran dyddiad dechrau'r cyfnod ar gyfer y cyfrifiadau. Mae hyn oherwydd bod yr ymadrodd "dechrau â’r dyddiad" fel arfer yn cael ei ddehongli fel pe bai’n dechrau ar ddechrau'r dyddiad hwnnw ond gellid dehongli "dechrau o’r dyddiad" fel pe na bai’n cynnwys y dyddiad hwnnw fel bod y cyfnod yn dechrau o'r diwrnod canlynol - gweler Drafftio Deddfau i Gymru 8.3(1) a (3). A ddylai'r disgrifiadau ar gyfer dechrau'r cyfnodau hyn fod yn gyson â'i gilydd yn y darpariaethau hyn ar gyfer y cyfrifiadau?

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliadau newydd 45E(9) a 45F(9), yn y diffiniadau o “cyfnod perthnasol”, ceir croesgyfeiriad at “is-baragraff (a)”. Fodd bynnag, y disgrifiad cywir yw “paragraff (a)” yn hytrach nag “is-baragraff (a)” gan ei fod yn rhaniad o fewn diffiniad. Mae'r gwall hwn eisoes yn digwydd yn y diffiniadau presennol o "cyfnod perthnasol" a geir eisoes yn rheoliadau 45A(5), 45B(4), 45C(4) a 45D(4) o Reoliadau 2024.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft.**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliadau newydd 45E(9) a 45F(9) o Reoliadau 2024, yn y diffiniadau o “ad-drefnu”, mae anghysondeb yn yr ymadrodd a ddefnyddir yn y testun Cymraeg i gyfleu ystyr yr ymadrodd "other than a minimal or incidental change". Yn rheoliad 45E(9), defnyddiwyd yr ymadrodd "heblaw newid lleiaf neu achlysurol" i fynegi ei ystyr, ond yn rheoliad 45F(9) defnyddiwyd yr ymadrodd gwahanol "heblaw newid bach iawn neu ansylweddol". Dylai'r testun Cymraeg fod yn gyson yn y ddau le.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliad newydd 45F, defnyddir y term "trefniant llorweddol" ar ei ben ei hun mewn sawl man megis paragraffau (1), (3), (6) a (9), a hefyd fel rhan o'r term "gweithgareddau'r trefniant llorweddol" a ddiffinnir ar gyfer y rheoliad hwnnw gan reoliad 45F(9). Fodd bynnag, mae'r term "*horizontal arrangement*" yn derm diffiniedig ym mharagraff 3(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael 2023. Felly, a ddylid cynnwys diffiniad o "trefniant llorweddol" hefyd yn rheoliad newydd 45F(9) fel y bydd ganddo'r un ystyr yn y rheoliad hwnnw ag a roddir gan Ddeddf 2023?

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliad newydd 45F(8), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), defnyddir y term "y trefniant" heb gyfeiriad cynharach at "y trefniant llorweddol". A ddylid defnyddio'r ymadrodd "y trefniant llorweddol" yn y lle hwn yn hytrach na dim ond "y trefniant"?

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliad 45F(9), yn y diffiniad o "ad-drefnu", ym mharagraff (b), defnyddir y term "y trefniant", ond mae'r term "y trefniant llorweddol" wedi cael ei nodi yn llawn yn y ddau le y cafodd ei ddefnyddio yn gynt yn yr un diffiniad. Felly, a ddylid defnyddio'r ymadrodd "y trefniant llorweddol" hefyd ym mharagraff (b) o'r diffiniad hwn?

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 3(4), yn rheoliad 45F(9), yn y diffiniad o "cyfnod perthnasol" ym mharagraff (b), yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the timing of the preparation **of the preparation** of accounts". Felly, mae'n ymddangos bod "of the preparation" wedi'i ailadrodd ddwywaith yn y frawddeg ar gam. Mae hefyd yn golygu bod gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg oherwydd nid yw'r geiriau hyn wedi cael eu hailadrodd ddwy waith yn y man cyfatebol yn y testun Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae rheoliadau 45E a 45F yn gwneud darpariaeth benodol mewn cysylltiad â chyfrifiadau sydd i'w gwneud o dan baragraffau 2 a 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf 2023"). Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod unrhyw amwysedd gan ei bod yn eglur bod y diffiniad o "dyddiad dyfarnu'r contract" yn gymwys i reoliadau 45E a 45F ill dau'n unig. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwneud diwygiad mewn set o reoliadau yn y dyfodol, yn gynnar yn 2026, i egluro'r diffiniadau yn rheoliadau 45A i D sydd eisoes wedi eu gwneud.

Pwynt Craffu Technegol 2: Er bod Llywodraeth Cymru yn nodi bod cysylltiad rhwng rheoliadau 45E a 45F a'r rheoliadau 45A-D presennol, nid ydym yn credu bod defnyddio'r geiriad "dechrau â", yn hytrach na "dechrau o", yn awgrymu unrhyw wahaniaeth yn y dehongliad gan fod y ddau wedi eu goleddfu'n eglur gan y geiriau dilynol "dyddiad dyfarnu'r contract". Felly, nid ydym yn ystyried bod angen diwygiad.

Pwynt Craffu Technegol 3: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Drafftio Deddfau i Gymru ("DDiG") ym mharagraff 6.15(8) yn disgrifio senario lle y "Gall rheoliad, rheol neu erthygl, neu baragraff wedi ei rifo (1), (2) etc, hefyd gynnwys rhestr o ddiffiniadau heb rifau. Mae rhestrau o'r math hwn yn gweithio yn yr un modd mewn offerynnau statudol ag mewn Deddfau". Y paragraff perthnasol yn DDiG sy'n delio â Deddfau yw paragraff 6.13(7), sy'n datgan y "Gall adran neu is-adran hefyd gynnwys rhestr o ddiffiniadau heb rifau. Cyfeiriwch at ddiffiniad o'r fath fel "y diffiniad o x". Gall diffiniad heb rif gynnwys paragraffau (a) (b), (c) etc. a all gynnwys is-baragraffau (i), (ii) (iii) etc."

Fodd bynnag, mae paragraff 6.12 o DDiG hefyd yn datgan yn eglur bod "is-adran o baragraff bob amser yn is-baragraff". Ym mhob darpariaeth y cyfeirir ati ceir is-adran o baragraff. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod teilyngdod y pwynt technegol a godwyd, at ei gilydd nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiad.

Pwynt Craffu Technegol 4: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ac yn cytuno bod anghysondeb yn y testun Cymraeg. Nodir nad oes llawer o wahaniaeth mewn ystyr, os o gwbl, rhwng yr ymadroddion "lleiaf" a "bach iawn" gan fod y ddau ymadrodd yn cyfleu'n gywir ystyr bwriadedig "minimal". Mae ystyr "incidental" yn llai penodol, ac mae "ansylweddol" ac "achlysurol" ill dau'n cyfleu'n gywir agweddau ar yr ystyr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu delio â hyn fel cywiriad cyn gwneud y Rheoliadau fel yr amlinellir yn y tabl isod, er cysondeb.

Pwynt Craffu Technegol 5: Mae rheoliad 45F wedi ei ddeddfu'n benodol yn unol â pharagraff 3(2)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf 2023, felly mae'n eglur mai dim ond yr ystyr yn y paragraff hwnnw a all fod i "trefniant llorweddol".

Ymhellach, rydym yn nodi paragraff 4.2(2) o DDiG, ac yn cytuno ag ef: "Ni ddylid cynnwys diffiniad oni fydd yn helpu eglurder neu sicrwydd... os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, ni ddylai fod angen diffiniad". Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diffinio trefniant llorweddol yn y Rheoliadau hyn.

<u>Pwynt Craffu Technegol 6:</u> Mae rheoliad 48F(8) yn eglur mai ystyr “y trefniant” yw trefniant llorweddol. Cyflawnir hyn drwy gyfeirio at baragraffau (2) i (7) sy’n ei ragflaenu ac sy’n cyfeirio at drefniadau llorweddol, ac yn ail drwy gyfeirio wedyn at baragraff 3(2)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf 2023 sydd hefyd yn cyfeirio at drefniadau yn ogystal â threfniadau llorweddol. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen unrhyw ddiwygiad i’r ddarpariaeth hon ac mae’n credu ei bod yn gwbl gyson â’r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y pŵer galluogi.

<u>Pwynt Craffu Technegol 7:</u> Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod geiriad y diffiniad o “ad-drefnu” yn rheoliad 45F(9) yn eglur yn union oherwydd y cyfeiriadau blaenorol at “trefniadau llorweddol” a gynhwysir yn y diffiniad, ac felly nad oes angen unrhyw ddiwygiad.

<u>Pwynt Craffu Technegol 8:</u> Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt hwn ac yn cytuno ei bod yn ymddangos mai gwall teipograffyddol yn y testun Saesneg yw hyn. O ystyried ei fod yn wall teipograffyddol amlwg nad yw’n effeithio ar yr ystyr yn ei hanfod, rydym yn bwriadu delio â hyn fel cywiriad cyn gwneud y Rheoliadau fel yr amlinellir yn y tabl isod.

| **CYWIRIADAU I’R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I’R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025** | **The Procurement (Wales) (Amendment) Regulations 2025** |
| Dylid newid yr ymadrodd “heblaw newid lleiaf neu achlysurol” a ddefnyddir yn rheoliad 45E(9) o “heblaw newid lleiaf neu achlysurol” i “heblaw newid bach iawn neu ansylweddol”. | Dd/G |
| Dd/G | Yn y diffiniad o “relevant period” yn rheoliad 3(4) a rheoliad newydd 45F(9) yn (b) bydd y geiriau a ganlyn yn cael eu hepgor: “of the preparation”. |
| Bydd mân faterion fel fformatio a gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro, a mân newidiadau yn cael eu gwneud i’r nodyn esboniadol a’r troednodiadau, cyn gwneud y Rheoliadau. | |

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0246/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Mai 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar yr economi gylchol, trafodaethau ar Gytundeb Cyffredin-Ddealltwriaeth yr UE-DU, gan gynnwys Cytundeb SPS posibl, ac effaith y Ddeddf Farchnad Fewnol ar sector EFRA. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0247/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

22 Mai 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr ar 15 Ebrill 2025, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, i adrodd ar gyfarfod Gweinidogion yr Amgylchedd y Cyngor Prydeinig Gwyddelig (BIC).

Mynychwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Lindsay de Sausmarez, Llywydd - Pwyllgor yr Amgylchedd a Seilwaith, Taleithiau Guernsey, o Lywodraeth Guernsey; Timmy Dooley TD, Gweinidog Gwladol yn Adran Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Ynni gyda chyfrifoldeb arbennig dros y Môr, o Lywodraeth Iwerddon; y Gweinidog Clare Barber, MHK o Lywodraeth Ynys Manaw; y Dirprwy Steve Luce, Gweinidog yr Amgylchedd o Lywodraeth Jersey; Andrew Muir ACD, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Pam Cameron ACD, Gweinidog Iau yn y Weithrediaeth, ac Aisling Reilly ACD, Gweinidog Iau yn y Weithrediaeth, oll o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon; Dr Alasdair Allan ASA, Gweinidog Dros Dro dros Weithredu ar yr Hinsawdd o Lywodraeth yr Alban; a Mary Creagh AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog dros Natur) o Lywodraeth y DU.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n crynhoi'r trafodaethau.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref PO/JB/252/2025
Ein cyf/Our ref PO/JB/252/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Mai 2025

Annwyl Gadeirydd,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am gyfarfod o'r Grwp Rhyngweinidogol ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gynhelir ar 4 Mehefin 2025.

Llywodraeth Cymru fydd yn cynnal y cyfarfod ymbresenoli hwn yng Nghaerdydd o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth y DU. Bydd agenda y cyfarfod yn cynnwys eitemau i drafod yr Ymateb i Gam 2 Grenfell, Materion ynghylch y Gweithlu Rheoli Adeiladu, Diwygio a Rheoleiddio Cynnyrch Adeiladu, a Ffyrdd o Weithio gyda Llywodraethau Datganoledig.

Byddaf yn bresennol yn cynrychioli Llywodraeth Cymru gyda fy nghydweithiwr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, gan fod yr eitemau ar yr agenda yn gyfrifoldebau i bortffolios y ddau ohonom.

Anfonaf adroddiad ar y cyfarfod atoch.

Yn gywir,

Jayne Bryant

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Mai 2025

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am ail gyfarfod Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau a gynhelir ddydd Gwener 23 Mai. Byddaf yn mynd i'r cyfarfod.

Ar yr un diwrnod, rwy'n edrych ymlaen hefyd at gyfarfod rhwng Prif Weinidog y DU, Prif Weinidog yr Alban, Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon a minnau, yn ogystal â chyfarfod dwyochrog byr â Phrif Weinidog y DU.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yn y cyfarfodydd hynny maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

M. E. Morgan.

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan @llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1083/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Mai 2025

Annwyl Mike,

Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 14 Mai 2025 ynghylch Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 3) 2025 ("Rheoliadau Rhif 3").

Ysgrifennais atoch yn flaenorol i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fel y gall Rheoliadau Rhif 3 fod yn gymwys i Gymru. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod bellach wedi rhoi'r cydsyniad hwn. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae Rheoliadau Rhif 3 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac fe'u gosodwyd a'u gwnaed ar 20 Mai 2025 a byddant yn dod i rym 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu gwneud.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2024-25** |
| **DYDDIAD** | **19 Mai 2025** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni** |

Heddiw rwy'n falch o osod gerbron y Senedd y degfed adroddiad blynyddol ar y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.

O dan adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig wedi eu gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 15 Chwefror 2024 i 14 Chwefror 2025. Mae'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ar amryw o feysydd y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn ymdrin â hwy, yn ogystal â gwybodaeth am brosiectau cyfredol Comisiwn y Gyfraith a'r rhai sydd i ddod.

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y deuddeg mis a aeth heibio ar amryw o faterion a fu'n destun argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae hyn yn cynnwys pasio Deddf Cerbydau Awtomeiddiedig 2024 a Deddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-daliad 2024 a chyflwyno Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) gerbron y Senedd fis Rhagfyr diwethaf. Rydym hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â chynigion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â thribiwnlysoedd datganoledig, cyfraith etholiadol a chyfraith cynllunio.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodir yn dangos gwerth cynigion Comisiwn y Gyfraith i waith Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

2024-2025




Chwefror 2025

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

*Llyfr Iorwerth 1240*

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51746
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagarweiniad

1. Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y maent wedi gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr sy'n ymwneud â materion datganoledig.

2. Dyma'r degfed adroddiad o'r fath; mae'n ymdrin â'r cyfnod o 15 Chwefror 2024 i 14 Chwefror 2025 ac yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ar amryw o faterion a fu'n destun argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodir yn dangos gwerth cynigion Comisiwn y Gyfraith i waith Llywodraeth Cymru.

## Cwmpas yr adroddiad

3. Mae adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn dan sylw.

4. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig sydd wedi eu gweithredu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, a chynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig nad ydynt wedi eu gweithredu, gan gynnwys cynlluniau i weithredu a phenderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion.

5. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag adroddiadau Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.

## Cynigion sydd wedi eu gweithredu

### *Cerbydau Awtomeiddiedig (LC404)*

6. Ar 23 Ebrill 2024, cytunodd y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer yr hyn a ddaeth i fod yn Ddeddf Cerbydau Awtomeiddiedig 2024, ar ôl i Lywodraeth Cymru sicrhau newidiadau i'r darpariaethau er mwyn adlewyrchu'r setliad datganoli yn well. Mae'r Ddeddf yn gweithredu argymhellion yr adolygiad pedair blynedd o reoleiddio cerbydau awtomeiddiedig a gynhaliwyd ar y cyd gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban. Mae'n

gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio cerbydau hunan-yrru yn ddiogel ym Mhrydain. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau newydd yn y Ddeddf.

## Cynigion nad ydynt eto wedi eu gweithredu

### *Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru (LC406)*

7. Ar 9 Rhagfyr 2024, cyflwynwyd Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) i'r Senedd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

8. Wrth ddatblygu'r Bil, rhoddwyd ystyriaeth i gasgliadau Comisiwn y Gyfraith ynghylch diffygion y fframwaith deddfwriaethol presennol a gweithredwyd rhai o'i argymhellion. Bydd y Bil yn sefydlu cyfundrefn newydd i amddiffyn lles pobl, i ddiogelu cymunedau ac i warchod seilwaith hanfodol Cymru drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a rhoi iddo swyddogaethau o ran asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni.

9. Ar adeg yr adroddiad hwn (Chwefror 2025), roedd y Bil yng Nghyfnod craffu 1 y Senedd. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil.

### *Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (LC403)*

10. Fel rhan o'i drydedd Rhaglen ar ddeg i Ddiwygio'r Gyfraith, cytunodd Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru i gynnal prosiect ar y gyfraith sy'n ymdrin â thribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2021. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach Bapur Gwyn System dribiwnlysoedd newydd i Gymru yn nodi cynigion ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd datganoledig, gan dynnu ar adolygiad Comisiwn y Gyfraith a'i argymhellion ar gyfer diwygio, ynghyd ag argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Hydref 2019. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ym mis Ionawr 2024.

11. Mae gwaith helaeth i ddatblygu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu'r rhaglen i ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig yn dal i fynd rhagddo.

### *Lesddaliadau a chyfunddaliadau preswyl (LC392)*

12. Ym mis Mai 2024 pasiodd Senedd y DU Ddeddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Unwaith y caiff ei gweithredu, bydd yn deddfu amryw o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar ryddfreinio lesddaliadau. Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd eu hangen cyn gweithredu'r Ddeddf wedi eu rhannu rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r pwerau rhyddfreinio, megis y rheini sydd eu hangen i bennu cyfraddau cyfrifo'r premiwm rhyddfreinio, yn ogystal â'r pwerau i gychwyn darpariaethau'r Ddeddf, yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol.

13. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth ddrafft ac i ddeddfu argymhellion pellach Comisiwn y Gyfraith ar ryddfreinio, yr hawl i reoli a chyfunddaliad, tua diwedd 2025. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff y diwygiadau pellach pwysig hyn eu cymhwyso i Gymru hefyd.

### *Cyfraith Etholiadol (LC389)*

14. Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) ar gyfer ymgynghori, i gefnogi ein nod mwy hirdymor o foderneiddio cyfraith etholiadol. Daw hyn ar ôl pasio dwy Ddeddf ddiwygio bwysig, Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholiadol (Cymru) 2024 . Mae'r Gorchymyn hwn yn cydgrynhoi ac yn llwyr ddiweddaru'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd am y tro cyntaf er 2007 – ac yn Gymraeg a Saesneg am y tro cyntaf erioed.

### *Cyfraith cynllunio yng Nghymru (LC383)*

15. Cyflwynodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru yn 2018, gyda'r nod ganolog o symleiddio a moderneiddio'r gyfraith yn y maes. Nododd Llywodraeth Cymru ei barn ar bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad yn ei hymateb terfynol i'r Comisiwn yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil i gydgrynhoi cyfraith cynllunio.

16. Gwnaed cryn gynnydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn gan fod y prif Fil cydgrynhoi a'i ddogfennau ategol yn agos at fod yn barod ar gyfer eu cyflwyno i'r Senedd. Bydd yr ymarfer cydgrynhoi yn arwain at Fil sylweddol iawn (rhyw 420 o dudalennau ymhob iaith). Bydd angen gwneud cyfres o ddiwygiadau a diddymiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill hefyd, yn ogystal â gwneud

darpariaethau trosiannol ac arbedion penodol. Yn hytrach na chynnwys y materion hyn mewn Atodlen i'r prif Fil, rydym yn gweithio ar ail Fil "darpariaethau canlyniadol". Y bwriad yw cyflwyno hwn i'r Senedd ar yr un pryd â'r prif Fil, fel bod y Senedd yn gallu ystyried y darlun cyflawn. Bwriad gwneud hyn yw sicrhau bod y darpariaethau o sylwedd (a'r rhai a ddefnyddir amlaf) yn rhydd o Atodlenni hirfaith o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol. Dyma a wnaed y tro diwethaf i gyfraith cynllunio gael ei chydgrynhoi ym 1990.

17. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Biliau cyn diwedd tymor y Senedd hon, ac mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cadarnhau yn ddiweddar ei bod yn debygol mai ym mis Medi 2025 y bydd hyn.

18. Mae'r gwaith o ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth i gefnogi gweithredu'r Biliau eisoes wedi dechrau, er enghraifft, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar reoliadau newydd i ddiogelu coed a choetiroedd, sydd i ddod i rym yr un pryd â'r Bil, gan ddod i ben ar 14 Chwefror 2025.

### *Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid (LC372)*

19. Dim adroddiad pellach.

### *Gwasanaethau Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat (LC347)*

20. Mae swyddogion yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid ar ddatblygu safonau a phecyn hyfforddi ar gyfer y sector tacsis a cherbydau hurio preifat. Mae'n debyg y bydd y rhain ar gael i'w defnyddio'n wirfoddol yn fuan yn 2026 cyn cael eu gwneud yn fandadol yn ddiweddarach. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud cyhoeddiad ynglŷn â rhaglen ddeddfwriaethol blwyddyn olaf y Senedd cyn toriad haf 2025.

## Cynigion nad ydynt i'w gweithredu

21. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol

### *Cyfraith amaethyddiaeth yng Nghymru*

22. Ers yr adroddiad diwethaf mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ystyried a ellid moderneiddio, symleiddio a gwneud y gyfraith ar amaethyddiaeth yng Nghymru yn fwy hygyrch drwy gydgrynhoi a chodeiddio, a sut y gellid gwneud hynny. Dechreuodd y prosiect hwn yng ngwanwyn 2024 ac ar y dechrau disgwylid iddynt adrodd arno yng ngwanwyn 2025. Yn fwy diweddar cytunwyd y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn yr hydref 2025. Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried:

    a. pa ddeddfwriaeth allai fod yn rhan o god y gyfraith ar amaethyddiaeth yng Nghymru;
    b. pa newidiadau neu addasiadau technegol i'r gyfraith sy'n ddymunol neu'n angenrheidiol er mwyn symleiddio, moderneiddio a rhoi gwell trefn ar y gyfraith i ffurfio cod o'r fath.

23. Gan mai'r bwriad ar hyn o bryd yw mai ar ffurf prosiect cydgrynhoi y byddai unrhyw waith yn digwydd yn y dyfodol, ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn ystyried awgrymu cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith nac adolygu sylwedd polisi amaethyddol Cymru.

### *Prosiectau eraill*

24. Mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithio ar amryw o brosiectau eraill ar hyn o bryd, rhai ohonynt yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i ddatblygu cynigion y mae modd eu gweithredu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Uwchgynhadledd yr UE a'r DU** |
| **DYDDIAD** | **19 Mai 2025** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio** |

Mae Cymru'n genedl Ewropeaidd sy'n edrych tuag allan a bydd wastad felly. Yr UE yw partner masnachu pwysicaf Cymru o hyd a'r ffynhonnell fewnfuddsoddi fwyaf. Mae ein rhwydwaith yn Ewrop yn help hanfodol i hybu masnach a buddsoddi ac i wireddu ein hymrwymiad i gael perthynas ystyrlon ag Ewrop.

Gwnaethom groesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ailgychwyn y berthynas â'r UE ac rydym wedi bod yn glir iawn beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym wedi defnyddio'r peirianwaith rhynglywodraethol i ymgysylltu'n adeiladol.

Felly, rydym yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw yn dilyn Uwchgynhadledd yr UE-DU, sy'n rhoi cychwyn newydd ar y berthynas rhwng y DU a'r UE a chyfleoedd newydd ar gyfer gwella amddiffyn a diogelwch a ffyniant economaidd pobl a busnesau bob ochr i'r Sianel.

Roedd Llywodraeth Cymru'n glir bod sicrhau cytundeb gyda'r UE i leihau rhwystrau masnach mewn amaethyddiaeth, bwyd a diod yn flaenoriaeth.  Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw ar Safonau Glanweithiol a Ffytoiechyd. Daw cytundeb o'r fath â budd mawr i'n sectorau amaethyddol, bwyd a diod. Mae cynnyrch Cymru gyda'r cynnyrch o'r ansawdd uchaf sydd ar gael, a byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod llais i flaenoriaethau Cymru mewn unrhyw drafodaethau. Byddwn yn dal i wasgu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y cytundeb yn caniatáu i ni ailgychwyn gwerthu molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd Cymru i'r UE.

Rydym yn cydnabod mor bwysig yw diogelu cyflenwadau ynni a rôl ynni adnewyddadwy yn ein dyfodol. Rydym wedi galw'n groch am gydweithredu tynnach yn y meysydd hyn i wireddu'n huchelgeisiau ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed heddiw.

Mae'r Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) yn offeryn pwerus ar gyfer datgarboneiddio ac yn cefnogi ein nodau ar gyfer twf gwyrdd a swyddi gwyrdd. Daw alinio ETS y DU ag ETS yr UE â manteision i Gymru drwy greu cyfleoedd i ddiwydiannau Cymru a sicrhau cae chwarae gwastad mewn marchnad eang. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r cyfrifoldeb am ETS y

DU gyda Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a Llywodraeth y DU, ac rydym yn croesawu'r datblygiad hwn.

Rydym yn croesawu hefyd gyhoeddiad y DU a'r UE o'u cyd-ymrwymiad i drafod cynllun symudedd ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn flaenoriaeth fawr i Lywodraeth Cymru am ein bod am weld ein pobl ifanc yn cael yr amrywiaeth ehangach posibl o gyfleoedd a phrofiadau i fanteisio arnyn nhw. Rydym yn cefnogi cynigion fydd yn caniatáu i bobl ifanc elwa ar y cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol a ddaw o fyw, gweithio ac astudio yng ngwledydd ein gilydd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynllun yn cynnig manteision go iawn i Gymru ac edrychwn ymlaen at groesawu pobl ifanc o bob rhan o'r UE.

Rydym wedi dweud droeon ein bod am weld Cymru yn cael cymryd rhan mewn mwy o raglenni'r UE, gan gynnwys Erasmus+. Mae ein buddsoddiad yn rhaglen Taith yn dangos ein hymrwymiad i ddysgu rhyngwladol ac wedi sicrhau nad yw cenhedlaeth o ddysgwyr wedi colli profiadau sy'n newid bywydau. Mae Taith yn cael ei chanmol gan Senedd Ewrop am ei bod yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a mudiadau llai, ac rydym wedi ymrwymo i gadw a datblygu'r fenter. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ein blaenoriaethau i fanteisio ar raglenni eraill yr UE fel Creative Europe a Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd mwy o drafod yn benodol am y bennod yn y TCA sy'n ymdrin â chaniatáu mynediad ac arosiadau dros dro at ddibenion busnes a chydnabod cymwysterau proffesiynol. Yn ein trafodaethau, rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod yn rhoi blaenoriaeth i fesurau a fydd yn ei gwneud hi'n haws i weithwyr proffesiynol Cymru wneud busnes yn yr UE.

Rydym yn trysori'n fawr ein perthynas â sefydliadau, gwledydd a rhanbarthau yn Ewrop, ac rydym wedi ymrwymo i barhau i gydweithredu'n adeiladol ac yn llwyddiannus gyda'r UE trwy TCA UE-DU a'r datblygiadau a gyhoeddwyd heddiw. Dim ond trwy gydweithredu y gallwn fynd i'r afael â heriau byd-eang heddiw ac yfory.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i gwblhau'r manylion, ac rydym yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae rhan lawn mewn trafodaethau ar faterion datganoledig a materion sy'n effeithio ar Gymru. Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan Gymru lais cryf yn y trafodaethau hynny.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**–**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Busnes

19 Mai 2025

Annwyl Llywydd,

**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

Ar 25 Mawrth 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r Bil hwn. Mae'r Aelodau wedi trafod y Memorandwm atodol, ac maent yn fodlon bod yr adroddiad ar y Memorandwm gwreiddiol yn parhau i adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor o ran y Memorandwm gwreiddiol a'r Memorandwm atodol. Felly, ni fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ychwanegol ar yr adeg hon.

Ar 13 Mai 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) at y Pwyllgor, gan bennu 19 Mai fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Rydym yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ar y cymal newydd sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm atodol hwn, ac ar sut y gallai proses gydsynio Gweinidogion Cymru weithio. Fodd bynnag nid oes digon o amser ar gael i'r Pwyllgor archwilio'r materion hyn cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon